

COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Cofnodion y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd dros y rhwydwaith am 9.30 ar 17 Mawrth 2015

Yn bresennol:

Aelodau: Geraint James (Cadeirydd)
Yr Athro Iwan Davies
Gareth Pierce (aelod cyfetholedig)
Yr Athro Catrin Thomas

Archwilwyr: Jonathan Rees, KTS Owens Thomas (Archwilwyr mewnol)

Staff y Coleg: Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr
Dr Dylan Phillips, Uwch Reolwr Academaidd
Catherine Rees, Ysgrifennydd y Coleg
Dr Gwennan Schiavone, Uwch Reolwr Academaidd
Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd
Nia Brown, Swyddog Datblygu

Ymddiheuriadau: Dr Rhodri Llwyd Morgan

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso ac ymddiheuriadau	1.1 Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod dros y rhwydwaith. 1.2 Nodwyd ymddiheuriadau, fel uchod.		
2. Datganiadau o ddiddordeb	2.1 Nid oedd datganiadau o ddiddordeb.		
3. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol	3.1 Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2014, fel cofnod cywir. 3.2 Diolchodd y Cadeirydd i'r Athro Catrin Thomas am		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	gyflwyno adroddiad i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr, yn ei absenoldeb, ar 26 Tachwedd 2014.		
4. Aelodaeth	<p>4.1 Yn dilyn ymddiswyddiad Mererid Jones adroddwyd bod y Bwrdd Cyfarwyddwyr wedi argymhell enw i'w wahodd fel aelod cyfetholedig o'r pwyllgor. Adroddodd y Prif Weithredwr ei fod wedi estyn gwahoddiad a'i fod yn aros am ymateb.</p> <p>4.2 Ceir diweddariad yn y cyfarfod nesaf.</p>		
5. Adroddiad yr Archwilwyr Mewnol	<p>5.1 Eglurodd y Cofrestrydd bod yr Archwilwyr Mewnol wedi cyflwyno dau adroddiad i'r swyddogion yn ymwneud â Rheoli Risg ac ar Warchod Data. Bydd trafodaeth bellach rhwng yr archwilwyr a'r Coleg cyn cyflwyno'r argymhellion ar Reoli Risg ac ymateb y swyddogion iddynt. Cyflwynir yr adroddiad hwn yn y cyfarfod nesaf.</p> <p>5.2 Cyflwynwyd crynodeb o adroddiad yr Archwilwyr Mewnol ar Warchod Data gan Jonathan Rees.</p> <p>5.3 Eglurwyd bod yr adroddiad yn cwmpasu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llywodraethu diogelu data • Hyfforddiant ac ymwybyddiaeth diogelu data'r staff • Diogelwch data personol (llaw a/neu electronig) • Ceisiadau am ddata personol • Rhannu data • Rheoli cofnodion <p>5.4 Canmolwyd sicrwydd systemau gwarchod data'r Coleg a chanfuwyd pum risg <i>isel</i> sef:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diffyg cyfarwyddyd ysgrifenedig ar bolisiau cadw a dinistrio data o'r Polisi Diogelwch Gwybodaeth - argymhell nodiadau desg i'r staff • Dileu data'n barhaol – angen awdurdodi gwaredu, er nad oes unrhyw waredu ar ddata'r 	<p>Swyddogion i baratoi</p> <p>Diweddariad</p>	<p>Mehefin 2015</p> <p>Mehefin 2015</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>Coleg wedi digwydd ers ei sefydlu</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nad oes cyfeiriad at ddeddf diogelu data 1998 nac at rannu data mewn perthynas â'r wybodaeth a rennir rhwng y Coleg a'r sefydliadau addysg uwch am fyfyrwyr a darlithwyr – argymell cymal safonol yn y cytundebau • Polisi rhannu data clir i'r CCAUC a darlithwyr, myfyrwyr a staff ond dim arfer rhannu data yn allanol gan gyfeirio at arfer da Deddf Diogelu Data 1998 – argymell diweddarau'r polisi rheoli gwybodaeth ac ystyried dod yn sefydliad cyfranogol o Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru • Ystyried cadernid y polisi preifatrwydd yn sgil Deddf Diogelu data 1998. <p>5.5 Derbyniwyd yr adroddiad a diolchwyd i Owain Huw, Rheolwr Gwasanaethau Gwybodaeth, am ei waith ar warchod data'r Coleg a'r Archwilwyr Mewnol yn ffurfiol am eu gwaith.</p> <p>5.6 Cafwyd trafodaeth ar yr adroddiad a nodwyd y sylwadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • atgyfnerthu'r angen i dderbyn caniatâd myfyrwyr am rannu gwybodaeth rhwng mwy nag un sefydliad. Sicrhawyd yr aelodau bod myfyrwyr yn arwyddo cytundeb wrth ymuno â'r Coleg • Trwytho staff a myfyrwyr i beidio rhannu gwybodaeth bersonol megis e-bost • Angen eglurder ar y broses o warchod data a sicrhau rhyddid gwybodaeth – argymell creu ffurflen wirio • Polisi gwaredu data a hyd cadw data – argymhellwyd cylchredeg y polisi i'r aelodau 	<p>Cynnwys cymal pan fo'r cytundebau yn cael eu diweddarau</p> <p>Diweddarau'r polisi</p> <p>Trafod ymuno â CRhGBC</p> <p>Cylchredeg y polisi diogelwch gwybodaeth</p>	<p>Gwanwyn 2016</p> <p>Mehfin 2015</p> <p>Ebrill 2015</p> <p>Mawrth 2015</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	iddynt ystyried a ydyw'n briodol.		
6. Cyfrifon Rheoli'r Coleg ar gyfer Chwarter 2 2014/15 (PA/15/01/06)	<p>6.1 Cafwyd crynodeb cyllideb chwe mis ac eglurhad ar Gyfrifon rheoli'r Coleg ar gyfer chwarter 2 2014/15 gan y Cofrestrydd.</p> <p>6.2 Cafwyd trafodaeth gyffredinol ar y cyfrifon a chrybwyllwyd bod y patrwm yn gyson gyda'r cynlluniau a osodwyd. Nodwyd bod gwariant Cynllunio Academaidd yn llai na ragwelwyd ond bydd rhai prosiectau i'w hariannu yn y cyfnod nesaf. Mae cyllidebau eraill yn adlewyrchu digwyddiadau penodol e.e. yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Cynulliad Blyneddol.</p> <p>6.3 Cafwyd trafodaeth ar y cyfrifon a nodwyd y sylw i ychwanegu colofn ychwanegol i'r tabl yn nodi canran y gyllideb o'r cyfnod cyfatebol y llynedd. Eglurodd y Cofrestrydd y byddai modd gwneud hyn o chwarter 1 2015/16 pan fyddai'r system gyllid newydd wedi bodoli am flwyddyn.</p> <p>6.4 Derbyniwyd y cyfrifon gyda'r argymhellion.</p>		
7. Cyllideb y Coleg 2015/16 (PA/15/01/07)	<p>7.1 Cyflwynwyd Cyllideb y Coleg ar gyfer 2015/16 gan y Cofrestrydd. Eglurwyd bod y gyllideb ar ffurf drafft ac yn gyson â'r cyllid a dderbyniwyd gan y Cyngor Cyllido. Nodwyd yr angen i fod yn ddarbodus yn sgil ansicrwydd grant y Coleg ar gyfer 2015/16. Ar y cyfan adroddwyd bod y cyllidebau yn weddol fflat sy'n gwmp mewn termau real.</p> <p>7.2 Nodwyd bod y gyllideb Staffio Academaidd yn cynyddu o ganlyniad i'r rownd olaf bresennol o ddyfarniadau pan fydd tua 120 o ddarlithwyr yn cael eu cyllido gan y Cynllun Staffio. Nodwyd na fyddai rhagor o ariannu swyddi newydd drwy'r cynllun staffio yn y tymor byr-canolog.</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>7.3 Cafwyd adroddiad llafar gan y Prif Weithredwr ar drafodaethau diweddar gyda'r Cyngor Cyllido, Prifysgolion Cymru a Llywodraeth Cymru ynghylch dyfodol cyllideb y Coleg. Cafwyd diweddariad hefyd ar amserlen debygol Adolygiad Diamond.</p> <p>7.4 Cyfeiriwyd at bwysigrwydd cynyddu'r galw ar gyfer addysg uwch cyfrwng Cymraeg a nodwyd bod adolygiad ar fin cael ei gomisiynu ar yr ysgoloriaethau a noddir gan y Coleg. Cyfeiriwyd at brosiect Dilyniant y Coleg, cydweithio gydag addysg bellach ac adolygu cynlluniau pynciol.</p> <p>7.5 Cyfeiriwyd at bwysigrwydd y REF a nifer y darlithwyr o'r Coleg sy'n cyflwyno ymchwil iddo. Awgrymwyd gosod y REF fel eitem agenda yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Cyfarwyddwyr.</p>	Gosod REF ar agenda'r Bwrdd Cyfarwyddwyr	17 Mehefin 2015
8. Pensiwn USS	<p>8.1 Cafwyd diweddariad llafar ar sefyllfa pensiwn USS gan y Cofrestrydd a'r Ysgrifennydd.</p> <p>8.2 Cyfeiriwyd bod newidiadau ar y gorwel a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2016.</p>		
9. Materion yn Codi	9.1 <u>Eitem 13.1</u> Nodwyd yr ail-drefnwyd y cyfarfod a nodwyd yn y cofnod fel 24 Chwefror 2015 i 17 Mawrth 2015.		
10. UFA	10.1 Nid oedd unrhyw fusnes arall.		
11. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf	11.1 Cytunwyd i drefnu'r cyfarfod nesaf ym mis Mai ac i wahanu cyfarfodydd y pwyllgor o'r Bwrdd Cyfarwyddwyr a hynny fis yn gynt a thros y rhwydwaith. Cytunwyd i gylchredeg y dyddiad nesaf maes o law.	Swyddog Datblygu i ail-drefnu	Ar unwaith